SNAP cymru

Derbynnydd Gwobr Gwirfoddoli Jiwbili Diemwnt Y Frenhines

# SNAP Cymru

## Beth os na allwn ni gytuno?



**Anghenion Dysgu Ychwanegol Datrys Anghydfod**

SQM

Helplines Partnership MEMBER

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

disability confident COMMITTED

Agored Cymru

Investing in Volunteers

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Beth os na allwn ni gytuno?

Weithiau, efallai y byddwch yn anghytuno ag eraill sy'n cefnogi anghenion eich plentyn neu'n anhapus gyda rhywbeth maen nhw'n ei wneud neu'n ei ddweud.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau datrys anghydfodau annibynnol i helpu pan na all rhieni neu bobl ifanc gytuno â'r awdurdod lleol, ysgolion neu golegau am y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Nod y gwasanaethau datrys anghydfodau yw helpu pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, awdurdodau lleol ac eraill sy'n gyfrifol am wneud darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, i ddod i gytundeb sydd er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n hanfodol delio â phroblemau cyn gynted ag y bo modd ac i blant, pobl ifanc a rhieni gael gafael ar gyngor a chefnogaeth ddiduedd.



## Beth ddylwn i ei wneud gyntaf?

Y cam cyntaf i ddatrys anghydfod yw siarad â'r parti arall. Os ydych chi'n poeni am y cymorth mae eich plentyn yn ei gael yn yr ysgol, neu'r coleg, y cam cyntaf yw siarad â'u Hathro, y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) neu'r Pennaeth.
Dydy hi byth yn rhy gynnar i ofyn am gymorth neu gyngor, dylai hyn ddechrau gyda'r lleoliad bob amser. Mae cymryd rhan a chael cymorth yn gynnar yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i gynnydd eich plentyn.
Os ydych chi'n credu bod y lleoliad yn gwneud popeth o fewn ei allu, ond bod angen mwy o gymorth ar eich plentyn, neu os ydych chi'n dal i anghytuno, gallwch hefyd gysylltu â thîm Gwaith Achos Anghenion Dysgu Ychwanegol (0-25) eich Awdurdod Lleol
Rhannwch yr holl wybodaeth sydd gennych chi am eich plentyn â'r ysgol, y coleg neu'r ALl, a byddan nhw yn:

- Gwrando ar eich problem a'i chymryd o ddifrif
- Eich cynnwys chi a'ch plentyn ac yn ystyried eich barn
- Archwilio'r holl faterion a'r pryderon
- Casglu gwybodaeth a chynllunio ffordd ymlaen

**"Ar ôl 18 mis o rwystredigaeth , mae'r berthynas rhyngom ni a'r ysgol a'r awdurdod lleol yn bendant wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i'r sesiwn datrys anghytundeb"**



## Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni:

Gall y gwasanaethau yma eich helpu gyda chyngor syml 'untro' neu fwy manwl gan weithiwr achos o'ch tîm lleol


0808 801 0608

DRS@snapcymru.org

www.snapcymru.org

@snapcymru SNAP Cymru


Cwmni cyfyngedig 2832114 | Elusen gofrestredig 1027599



## Beth nesaf?

Mae modd datrys y rhan fwyaf o anghydfodau drwy siarad â'r parti arall. Ond, os nad yw eich pryderon wedi cael eu datrys neu os yw'r cyfathrebu wedi methu, efallai y byddwch am ystyried defnyddio Datrys Anghydfodau.

Mae'r trefniadau hyn ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gwasanaeth yno i helpu i ddatrys anghytundebau ynghylch:
•sut mae darparwyr blynyddoedd cynnar, ysgolion ac addysg bellach yn gwneud penderfyniadau

- y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plentyn neu berson ifanc
- cynnwys cynlluniau datblygu unigol
- penderfyniadau ac ailystyriaethau awdurdod lleol
- fel dewis arall neu ochr yn ochr ag apeliadau Tribiwnlys

## Gwasanaeth Datrys Anghydfodau SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn elusen genedlaethol unigryw sydd â dros 35 mlynedd o brofiad ym maes anghenion dysgu ychwanegol. Mae gennym yr arbenigedd a'r wybodaeth i helpu pobl i gydweithio i ddatrys anghydfodau'n gyflym, gan ddod o hyd i atebion sy'n addas i'r plentyn neu'r person ifanc.

Gallwn helpu drwy'r canlynol:

- sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar les gorau'r plentyn neu'r person ifanc
- eich helpu i ddod o hyd i atebion effeithiol cyn gynted â phosibl
- cefnogi cyfathrebu, i helpu pobl i 'glywed' safbwyntiau ei gilydd
- egluro gwybodaeth er mwyn osgoi camddealltwriaeth
- archwilio hawliau ac opsiynau
- helpu pawb i ystyried atebion a chytuno ar beth i'w wneud nesaf

**"Diolch yn fawr i'n cyfryngwr; a hwylusodd yn deg ac yn annibynnol!"**